# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 15-09-09

**Presennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen, (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr Louise Hughes a Gwilym Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Ms Caroline Evans, Mr Michael Roberts (perchnogion)

**Cynrychiolydd yr Heddlu:** Y Rhingyll Wyn Lane

**Gwrthwynebwyr:** Mr M. Gilbert, Mr Johnson, Mrs Howie, Mrs P Ryan, Mrs J.Price, Mr I a Mrs M. Hall, Mr M Scott a Mr E Johnson.

**Ymddiheuriad:** Brian Williams, Swyddog Gwasanaeth Tân, De Gwynedd
.

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – PLAS GWYNFRYN, LLANBEDR.**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar ran Plas Gwynfryn, Llanbedr am drwydded eiddo newydd i ganiatáu dramau, ffilm, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio rhwng 09.00 a 03.00, darpariaeth ar gyfer dawnsio rhwng 10.00 a 03.00, bwyd poeth hwyr yn y nos rhwng 23.00 a 03.00 a chyflenwi alcohol rhwng 10:00 a 03:00.

Adroddodd y swyddog i dderbyn ymateb gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn cynnig sylwadau, gan yr Adain Gynllunio a'r Adran Safonau Masnach yn datgan dim sylwadau, a nifer o lythyrau gan drigolion cyfagos yn nodi eu gwrthwynebiad i fanylion y cais. Rhannwyd copiau o e-bost anfonwyd ar ran y Cyngor Cymuned ddaeth i law o fewn y cyfnod ymgynghori ond na chynhwyswyd gyda'r rhaglen, yn datgan eu bod yn cefnogi'r cais ond yn pryderu am effaith swn ar drigolion lleol ac yn awgrymu na ddylai alcohol gael ei gyflenwi wedi 2.00 y bore yn unol â thrwyddedai gweddill y pentref. Darparwyd copiau hefyd, er gwybodaeth, o lythyr Mrs K Roberts oedd wedi cael ei gynnwys yn anghyflawn gyda'r rhaglen.

Ar ddechrau'r cyfarfod adroddodd y Cadeirydd i ddau fater o drefn ddod i sylw'r Cyngor, ac y dylid trafod y materion hyn cyn penderfynu ai mynd ymlaen i drafod y cais ai peidio sef:
1. <u>Hysbysebu'r cais yn lleol</u>. Adroddwyd mai un rhybudd yn unig a osodwyd ar safle'r eiddo, a bod y rhybudd hwnnw yn wynebu tu mewn i'r eiddo, ac felly ddim yn amlwg i drigolion lleol fyddai'n mynd heibio ar y ffordd. Wedi i Swyddog Gorfodaeth dynnu sylw'r ymgeisydd at y mater, adroddwyd i rybudd pellach gael ei osod ar fynediad cefn yr eiddo gyda dyddiad cau newydd ar gyfer y cyfnod ymgynghori, ond na newidwyd y dyddiad ar y rhybudd gwreiddiol, ac felly ni chyfarfuwyd â gofynion y Ddeddf o ran hysbysebu ar yr eiddo. Adroddwyd y bu hysbyseb yn y Wasg leol yn unol â'r gofynion.

2. <u>Cynllun yr eiddo</u>. Er bod y cais yn nodi marquee, ni ddangosir lleoliad na maint marquee ar y cynllun. Adroddod y Rheolwr Trwyddedu, mewn enghreifftiau lle mae elfennau symudol mewn ceisiadau o'r fath, bod angen i ymgeisydd gytuno ar yr elfennau hynny gyda swyddogion Iechyd yr Amgylchedd cyn unrhyw ddigwyddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn adroddodd y Swyddog Trwyddedu mai un person yn unig a gysylltodd trwy alwad ffôn i gwyno am y rhybudd, a hynny o fewn y cyfnod ymgynghori.

Gwahoddwyd y gwrthwynebwyr i roi sylwadau ar y mater o'r rhybudd lleol, ac adroddwyd i'r mwyafrif fethu gweld y rhybudd, ac mai trwy gyswllt lleol y daeth y wybodaeth i'w sylw.

Nododd yr ymgeisydd iddi ymdrechu i ddilyn cyfarwyddyd y Cyngor ar gyfer yr hysbysu lleol, ac nad oedd yn ymwybodol o'r angen i osod rhybudd bob 50 medr ar yr eiddo, fel y cyfeiriodd y Rheolwr Trwyddedu.

Penderfynwyd trafod y materion hyn cyn mynd ymlaen â'r cais a gofynwyd i bawb ond aelodau'r Is-bwyllgor, y Cyfreithiwr a'r Swyddog Pwyllgor adael yr ystafell. Wedi ystyried sylwadau'r holl dystion penderfynwyd ei bod yn weddol glir i'r trigolion lleol perthnasol dderbyn y wybodaeth mewn da bryd, ac na fyddai unrhyw fantais mewn gohirio'r cais er mwyn ail-hysbysebu. Derbyniwyd eglurhad y Rheolwr Trwyddedu ynghylch maint a lleoliad unrhyw 'marquee' i'w osod ar dir yr eiddo. O ganlyniad, penderfynwyd mynd ymlaen i drafod y cais am drwydded eiddo i Plas Gwynfryn.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

1. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

2. Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Rhoddwyd gwahoddiad i bob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

4. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

5. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

6. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

7. Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd y Rhingyll Wyn Lane iddo gynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd oherwydd ei bryder y byddai'r eiddo'n datblygu fel tafarn, a nododd y i'r ymgeisydd ddatgan y byddai'n fodlon rhoi taw ar gerddoriaeth am hanner nos a dim cyflenwi alcohol ar ol 23.30. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Is-bwyllgor ynghylch rheoli'r niferoedd, nodwyd y byddai'n bosibl i'r ymgeisydd baratoi rhestr o westeion ar gyfer bob achlysur.

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu iddo dderbyn llythyr gan swyddog y Gwasanaeth Tân yn nodi nad oedd gwrthwynebiad i'r cais, ond y byddai angen gosod larwm tân yn yr eiddo a chydymffurfio â chanllawiau'r Gwasanaeth cyn caniatau mwy mewn nifer i'r adeilad.

Er gwybodaeth i'r cyfarfod, adroddwyd bod un o'r gwrthwynebwyr, Mr D. Newbound, yn dilyn trafod ymhellach gyda'r ymgeisydd wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol i gyd ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol:

- Roedd y mwyafrif yn gefnogol o'r cais i gynnal priodasau ac i gynnig Te Prynhawn fel sydd ymlaen ar hyn o bryd
- Swn – roedd pawb yn bryderus am yr effaith y buasai swn fyddai'n deillio o unrhyw weithgaredd ar y safle yn ei gael ar heddwch y trigolion lleol, gan nodi bod y cwm yn un distaw a naws gwledig iddo
- Golau – byddai golau fyddai ymlaen yn ac o gylch yr eiddo, yn ogystal â golau cerbydau ychwanegol ar gyfer unrhyw gynulliad o bobl ar dir yr eiddo, yn amharu ar amwynder y trigolion lleol
- Trafnidiaeth – gan bod y ffordd tuag at a heibio i'r eiddo yn un gûl a throellog, byddai'r cynnydd mewn trafnidiaeth yn arwain o bosib at ddamweiniau
- Sbwriel – mynegwyd pryder am y maint o sbwriel fyddai'n dilyn digwyddiad i nifer o'r cyhoedd
- Diogelwch y ffyrdd – pryder nad yw'n bosib gweld yn glir wrth ddod allan o brif fynedfa'r eiddo
- Alcohol – pryder y byddai gwesteion yn gor-yfed ac yn achosi niwsans cyhoeddus hyd at oriau mân y bore
- Heddwch – pryder y byddai'r swn yn amharu ar heddwch gwesteion mewn tai cyfagos ac yn rhwystr i deuluoedd ifanc allu cysgu
- Tir garw – adroddwyd bod rhannau o dir yr eiddo yn arw a serth ac y gallai fod yn beryglus i rai fyddai'n crwydro yn y tywyllwch
- Terfyn – mynegwyd pryder y byddai'n hawdd i rai heb wahoddiad fynd i mewn i'r eiddo trwy fylchau yn y terfyn
- Gwefan – mynegwyd siom bod gwefan yr eiddo yn nodi bod yr eiddo yn drwyddedig eisoes

Wrth gefnogi'r cais ac ymateb i'r sylwadau uchod, dywedodd Michael Roberts, ar ran yr ymgeisydd, bod Plas Gwynfryn wedi bod yn gartref i deulu'r ymgeisydd ers deugain mlynedd, ac oherwydd ei faint ei bod yn anhepgorol bellach i chwilio am fodd i greu incwm er mwyn cynnal yr eiddo. Mae'r ymgeisydd eisoes yn cynnig te prynhawn i ymwelwyr ac yn awyddus i gynnig y safle ar gyfer priodasau neu gynadleddau, gan ddefnyddio rhan o'r 8 acer o dir yn ogystal â'r tŷ. Pwysleisiwyd nad oes unrhyw fwriad o redeg y lle fel tafarn, na bod ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol droi mewn i brynu alcohol. Cyflwynwyd ymateb i'r pryderon fel a ganlyn:

Digwyddiadau - Achlysurol yn unig fyddai'r digwyddiadau megis priodas neu gynhadledd, a rhagwelir mai dau yr wythnos ar y mwyaf fyddai'n digwydd, a hynny yn fwy tebygol yn ystod tymor yr haf.
Sŵn - Mae'r ymgeisydd yn deall pryderon y trigolion lleol ynghylch sŵn, ac yn fodlon addasu oriau'r cais i ddiwallu'r pryderon hyn. Nodwyd ei bod yn fwriad cadw naws yr adeilad a heddwch yr ardal cyn belled â phosibl, a chydweithio'n agos gyda Adran Iechyd yr Amgylchedd ynglŷn â lefel sŵn
Cludiant – Fe drefnir i unrhyw nwyddau gael eu cludo yn ystod y dydd cyn belled â phosibl
Parcio – Mae'n fwriad i baratoi safle parcio wyneb caled ar dir yr eiddo
Llety – Y bwriad yw darparu llety ar gyfer gwesteion yn unig, yn hytrach na hysbysebu fel gwesty parhaol
Sbwriel – Mae'r ymgeisydd eisoes wedi cysylltu â'r Cyngor i wneud trefniadau boddhaol ynghylch casglu sbwriel
Mynediad – Mae'r ymgeisydd yn fodlon addasu'r mynediad i'w gwneud yn fwy diogel trwy ostwng lefel y wal. Hefyd efallai ystyried cyfeirio cwsmeriaid allan o'r eiddo trwy'r fynedfa gefn
Nosweithiau pizza – Bydd nosweithiau o'r fath yn cael eu trefnu unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn ystod tymor y gwyliau, gyda alcohol yn cael ei gynnig fel rhan o'r pryd ac nid ar wahân. Rhagwelir y bydd hyn yn atyniad i ymwelwyr o faes carafanau cyfagos.
Pubwatch – cytunwyd i ymuno â chynllun Pubwatch lleol

Ychwanegodd asiant yr ymgeisydd eu bod yn deall pryderon y trigolion cyfagos yn llwyr, a'u bod yn fodlon cydweithio'n agos gyda'r holl asiantaethau er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd a boddhad y cymdogion. Eu bwriad yn y pen draw yw sefydlu busnes fydd o fudd i'r gymuned a'r economi leol.

Gadawodd yr ymgeiswyr, cynrychiolydd yr Heddlu, y swyddogion Trwyddedu a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais yn helaeth gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Wedi trafod manwl daethpwyd i gytundeb mwyafrifol fel a ganlyn:

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo i Plas Gwynfryn, Llanbedr, tu fewn i'r eiddo a thu fewn i unrhyw 'marquee', dan yr amodau canlynol:**

**a) Caniatau dramau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, darparu cyfleusterau dawns o 10.00 hyd at 24.00 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn ac o 10.00 hyd at 23.00 o Ddydd Sul i Dydd Iau**
**b) Cyflenwi alcohol o 10.00 hyd at 00.30 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn ac o 10.00 hyd at 23.00 o Ddydd Sul i Ddydd Iau**
**c) Cyflenwi bwyd poeth i'r cyhoedd o 23.00 hyd at 24.00 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn ac o 10.00 hyd at 23.00 Dydd Sul i Dydd Iau**
**d) Bydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd o10.00 hyd at 01.00 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn ac o 10.00 hyd at 23.30 Dydd Sul i Ddydd Iau**
**e) Bydd gwesteion yn gadael yr eiddo erbyn 00.30 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn**
**f) Bydd alcohol yn cael ei gyflenwi gyda pryd bwyd yn unig**
**g) Bydd lefel sŵn ac unrhyw fesurau rheoli swn yn cael ei gytuno gyda swyddogion Adran Iechyd yr Amgylchedd**
**h) Bydd maint a lleoliad unrhyw 'marquee' yn cael ei gytuno cyn ei osod gyda Swyddogion Adran Iechyd yr Amgylchedd a'r Gwasanaeth Tân**
**i) Bydd rhybuddion ynglyn â pheryglon yn y gerddi yn cael eu gosod o gwmpas y tir mewn mannau priodol**
**j) Bydd rhybuddion yn weledig yn yr eiddo yn annog gwesteion i adael yn ddistaw**
**k) Cerbydau sy'n gadael yr eiddo yn hwyr y nos i adael drwy'r brif fynedfa**
**l) Yr ymgeisydd i ymuno â'r cynllun Pubwatch lleol**
**m) I gydymffurfio â gofynion y Gwasanaeth Tân ac Achub**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr i bawb o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, gan hysbysu pawb o'r hawl a'r drefn i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor.

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.30pm a daeth i ben am 5.50pm**